Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Y Broses Apêl

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys broses apêl ar gyfer ceiswyr gwybodaeth sy'n dymuno apelio mewn perthynas â'u cais am wybodaeth. Ni fydd defnyddio'r broses apêl hon yn effeithio ar hawl ceiswyr i apelio'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth, os dyna yw eu dymuniad.

Pwy all apelio?

Mae gan unrhyw un sydd wedi gwneud cais am wybodaeth i Heddlu Dyfed-Powys yr hawl i apelio. Os yw ceisiwr yn anfodlon â'r modd y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi delio â chais am wybodaeth, gall ddefnyddio'r broses apêl er mwyn i'r cais gael ei ail-ystyried. Os yw person sydd wedi gwneud cais am wybodaeth yn dymuno apelio ond yn methu â gwneud hynny ei hunan, gall person arall apelio ar ei r/rhan.

Pa bethau all ceisiwr apelio yn eu cylch?

Gall ceisiwr apelio ynghylch amrediad, maint a fformat y wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Heddlu Dyfed-Powys mewn ymateb i gais. Gall ceisiwr hefyd apelio ynghylch y modd y trafodwyd y cais - er enghraifft, yr amser a gymerwyd i ymateb neu'r modd y cafodd y llythyr ei eirio.

Sut dylai ceiswyr apelio?

Bydd yn rhaid i geiswyr sy'n dymuno apelio gysylltu ag Uned Rhyddid Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys. I hwyluso materion, dylai'r ceisiwr ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosib am y cais a'r rheswm am yr apêl. Os oes modd, dylid dyfynnu cyfeirnod y cais gwreiddiol.
Gellir cysylltu â'r Uned Rhyddid Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Uned Rhyddid Gwybodaeth
Heddlu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

Rhif ffôn: 0845 330 2000
Llinell uniongyrchol: 01267 226596/01267 226297

E-bost: FOI@Dyfed-Powys.pnn.police.uk

Terfynau amser

Os ydych am gyflwyno apêl, dylech, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, wneud hynny o fewn dau fis o dderbyn ateb terfynol i'ch cais gan Heddlu Dyfed-Powys. Yn unol ag arweiniad Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), nod Heddlu Dyfed-Powys yw delio â phob apêl ac i'w cwblhau cyn gynted ag sy'n ymarferol ac yn bendant o fewn dau fis o dderbyn yr apêl.

Beth fydd yn digwydd i'r apêl?

- Pan fydd gan yr Uned Rhyddid Gwybodaeth ddigon o wybodaeth i allu adnabod y cais gwreiddiol, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cychwyn adolygiad o'r hyn a ddigwyddodd, a phryd.

- Caiff yr apêl ei chyfeirio at banel o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Bydd y panel yn ymchwilio i'r hyn sydd wedi cymryd lle ac yn penderfynu a yw Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn deg a thrylwyr yn y modd y deliasant â'r ceisiwr. Bydd y panel nid yn unig yn ystyried y rhan honno o'r cais sy'n ymwneud â'r ceisiwr, byddant hefyd yn edrych ar y cais yn ei gyfanrwydd er mwyn canfod tarddiad y broblem a godwyd gan y ceisiwr.

- Lle nad yw Heddlu Dyfed-Powys wedi cadw at y drefn gywir neu os yw wedi methu â darparu gwasanaeth o'r safona uchaf, bydd y ceisiwr yn derbyn ymddiheuriad ac esboniad o'r trefniadau y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn eu dilyn yn y dyfodol i sicrhau na fydd y fath broblem yn codi eto.

- Os penderfynir bod Heddlu Dyfed-Powys wedi methu yn ei ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, yna bydd y wybodaeth honno yn cael ei hanfon i'r ceisiwr yn ddi-oed. Os daw'r adolygiad i'r casgliad fod yr ymateb gwreiddiol yn un cywir, yna bydd y ceisiwr yn cael ei hysbysu o hynny. Hysbysir y ceiswyr hefyd ynghylch yr opsiynau sy'n agored iddynt.

Apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os yw'r ceisiwr yn dal i fod yn anfodlon yn dilyn yr adolygiad, gall apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth, a fydd yn gallu ymchwilio i'r achos ar ran y ceisiwr. Mae'r dewis hwn yn agored i'r ceisiwr ar unrhyw adeg. Yn ddelfrydol, byddai Heddlu Dyfed-Powys yn dymuno datrys problemau yn lleol. Bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn penderfynu p'un ai i ymchwilio ai peidio.

Gellir cysylltu â swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 08456 30 60 60 or 01625 54 57 45
e-bost: mail@ico.gsi.gov.uk
Gwefan: www.informationcommissioner.gov.uk